Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Bryn Tirion Hall

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/03/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bryn Tirion Hall wedi'i lleoli mewn plasty mawr mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a Sir y Fflint. Mae tir yr ysgol yn helaeth ac yn cynnig ardal awyr agored dawel i ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol leoedd i 24 o ddisgyblion, gyda 10 lle preswyl ar gael yn y cartref plant. Ar hyn o bryd, mae 23 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ac maent rhwng 7 a 17 oed. Mae deg o'r rhain yn byw yn y cartref plant. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan dri ar ddeg o'r disgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cwblhau ailstrwythuro'r uwch dîm rheoli ac wedi cynyddu nifer y staff i gynnwys rheolwr cymorth bugeiliol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r uwch dîm yn gweithio'n dda iawn i arfarnu arfer ac adnoddau i lywio cynllunio ar gyfer gwella

Mae'r cyfathrebu rhwng y cartref plant a'r ysgol yn gadarnhaol ac yn gwneud gwahaniaeth i ymddygiad disgyblion

Mae'r ysgol yn ymgynghori'n effeithiol iawn â disgyblion a rhieni i ddylanwadu ar bolisi ac arfer

Mae'r ysgol yn cynnal nifer o fentrau defnyddiol i wella'i dealltwriaeth o anghenion yr holl ddisgyblion

Mae disgyblion yn yr ysgol yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac yn ymddiddori yn eu dysgu

### Meysydd i'w datblygu

Nid yw'r cynllunio i ddisgyblion drosglwyddo'n ddidrafferth i'r ddarpariaeth 14-19 leol, gan gynnwys addysg bellach, wedi'i ddatblygu'n ddigonol

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau bod partneriaethau effeithiol ar waith sy'n caniatáu i ddisgyblion drosglwyddo'n ddidrafferth i ysgolion lleol ac addysg bellach, lle y bo hyn yn briodol

## Cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Mynd i’r afael â gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae’r ysgol wedi diwygio’r polisi diogelu ac mae bellach yn bodloni gofynion.

**Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod polisïau perthnasol yn cysylltu â’i gilydd**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae’r holl bolisïau bellach yn dangos cysylltiadau â pholisïau eraill yr ysgol a chanllawiau cenedlaethol.

**Argymhelliad 3: Diwygio’r polisi ymddygiad i adlewyrchu’r arferion yn yr ysgol, gan gynnwys y system ar gyfer gwobrau a chosbau**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae’r ysgol wedi diwygio’i pholisi ymddygiad. Mae gwobrau i ddisgyblion wedi’u diffinio’n glir erbyn hyn ac maent yn briodol i’r disgyblion. Mae’r broses ar gyfer dyrannu gwobrau wedi’i mabwysiadu gan bob aelod staff. Hefyd, mae’r polisi’n amlinellu prosesau’r ysgol ar gyfer pennu cosbau yn glir.

**Argymhelliad 4: Dadansoddi tueddiadau a phatrymau ymddygiad disgyblion i arfarnu effaith strategaethau’r ysgol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae’r ysgol wedi penodi rheolwr bugeiliol i gymryd cyfrifoldeb am ddadansoddi patrymau ymddygiad er mwyn amlygu tueddiadau mewn digwyddiadau heriol. O ganlyniad, bu gostyngiad yn nifer yr ymyriadau y bu eu hangen yn yr ysgol.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Bryn Tirion Hall |
| **Rhif yr ysgol** | 6646005 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 06/01/2016 |
| **Perchennog** | QEWC Ltd |
| **Staff** | Pennaeth<br>Dirprwy bennaeth<br>Uwch athro – Addysgu a Dysgu<br>5 athro<br>Rheolwr bugeiliol<br>Rheolwr busnes<br>Rheolwr gweinyddu<br>8 cynorthwyydd cymorth dysgu<br>30 o weithwyr cymorth preswyl |
| **Nifer y disgyblion** | 23 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â’r cartref plant |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 02/09/2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/02/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 02/11/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Susan Lesley (Sw) Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Gill Sims | Arolygydd Tîm |